LEARNING AND WORK INSTITUTE

Profiadau dysgwyr o ddysgu mewn cyfnod clo

Cymru

Abigail Lagou ac Emily Jones

Rhagfyr 2021

LEARNING AND WORK INSTITUTE
SEFYDLIAD DYSGU A GWAITH LEARNING AND WORK INSTITUTE
SCOTLAND'S LEARNING PARTNERSHIP
Forum for Adult Learning Northern Ireland
Co-funded by the Erasmus+ Programme of the European Union

Cyhoeddwyd gan Sefydliad Cenedlaethol Dysgu a Gwaith

4th Floor Arnhem House, 31 Waterloo Way, Caerlŷr/Leicester LE1 6LP

Rhif cofrestru cwmni 2603322 | Rhif cofrestru elusen 1002775

www.learningandwork.org.uk @LearnWorkUK @LearnWorkCymru

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu, copïo na throsglwyddo'r cyhoeddiad hwn heb ganiatâd ysgrifenedig y cyhoeddwyr, heblaw yn unol â darpariaethau Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988, neu dan delerau unrhyw drwydded sy'n caniatáu copïo cyfyngedig a gyhoeddir gan yr Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint.

Am y Sefydliad Dysgu a Gwaith

Mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith yn sefydliad polisi, ymchwil a datblygu annibynnol sy'n ymroddedig i ddysgu gydol oes, cyflogaeth lawn a chynhwysiant.

Ymchwiliwn yr hyn sy'n gweithio, datblygu ffyrdd newydd o feddwl a gweithredu dulliau newydd. Gan weithio gyda phartneriaid, rydym yn trawsnewid profiadau pobl o ddysgu a chyflogaeth. Mae'r hyn a wnawn o fudd i unigolion, teuluoedd, cymunedau a'r economi yn ehangach.

Derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf. Cymryd rhan. Cadw mewn cysylltiad. Cofrestrwch i ddod yn gefnogwr y Sefydliad Dysgu a Gwaith: www.learningandwork.org.uk/supporters

Cynnwys

Cyflwyniad 5

Am yr Arolwg Cyfranogiad Oedolion mewn Dysgu 5

Canfyddiadau ymchwil 7

Am y dysgu 7

Newid i ddarpariaeth ar-lein 7

Profiad blaenorol o ddysgu fel oedolyn 8

Cymhellion am ddysgu yn y cyfnod clo 8

Y manteision a ddisgwylir o ddysgu 8

Heriau 9

Profiadau o ddysgu ar-lein 10

Yr hyn a hoffai dysgwyr am ddysgu ar-lein 10

Yr hyn na hoffai dysgwyr am ddysgu ar-lein 11

Cefnogi oedolion i ddysgu ar-lein 11

Bwriadau i ddysgu yn y dyfodol 12

Casgliad 13

Cyflwyniad

Am y 25 mlynedd ddiwethaf, bu'r Sefydliad Dysgu a Gwaith yn cynnal Arolwg Cyfranogiad Oedolion mewn Dysgu bron bob blwyddyn[1]. Mae'r arolwg yn rhoi trosolwg unigryw o lefel cyfranogiad mewn dysgu gan oedolion, gyda dadansoddiad manwl o bwy sy'n cymryd rhan a phwy sydd ddim yn cymryd rhan.

Yn 2020, ymchwiliodd yr arolwg brofiadau pobl o ddysgu ers dechrau pandemig Covid-19 a'r cyfnod clo cenedlaethol a gyflwynwyd ym mis Mawrth y flwyddyn honno[2]. Dangosodd yr arolwg fod 43% o oedolion wedi manteisio ar y cyfle i ddysgu drwy'r cyfnod clo, gan gynyddu'n sylweddol y twf cyson blaenorol mewn dysgu ar-lein. Aeth naw allan o ddeg (90%) o ddysgwyr y cyfnod clo ar-lein i wneud peth neu'r cyfan o'u dysgu; dywedodd 44% iddynt wneud mwy o ddysgu ar-lein fel canlyniad i'r cyfnod clo. A gyda sefydliadau a gweithleoedd ar gau neu'n gweithredu o bell, fe wnaeth 55% o ddysgwyr cyfnod clo ddysgu'n annibynnol, gyda 24% yn dysgu drwy gymwysiadau, gwefannau a chyfryngau cymdeithasol.

I ategu canfyddiadau'r arolwg, cynhaliodd Dysgu a Gwaith ymchwil ansoddol gyda dysgwyr oedd wedi cael mynediad i ddysgu ar-lein neu o bell ers dechrau'r pandemig. Ymchwiliodd hyn gymhellion dysgwyr am ddysgu; y manteision a'r deilliannau y disgwylient eu cael o'r dysgu; heriau dysgu ar-lein; ac awgrymiadau ar gyfer cefnogi oedolion eraill i fynd ati i ddysgu ar-lein. Cynhaliwyd yr ymchwil fel rhan o'n rhaglen waith fel Cydlynydd y Deyrnas Unedig ar gyfer Agenda Ewropeaidd Addysg Oedolion 2020-21.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau o'r cyfweliadau a gynhaliwyd gyda phump o oedolion sy'n ddysgwyr yng Nghymru. Cafodd y dysgwyr a gyfwelwyd eu recriwtio drwy'r Arolwg Cyfranogiad Oedolion mewn Dysgu a darparwyr dysgu.

Am yr Arolwg Cyfranogiad Oedolion mewn Dysgu

Mae'r arolwg Cyfranogiad Oedolion mewn Dysgu yn fwriadol yn defnyddio diffiniad eang o ddysgu, yn cynnwys ystod eang o ddysgu ffurfiol ac anffurfiol, ymhell tu hwnt i derfynau cyfleoedd addysgol a gynigir yn gyhoeddus ar gyfer oedolion. Bob blwyddyn, caiff sampl cynrychioladol o tua 5,000 o oedolion 17 oed a throsodd ar draws y Deyrnas Unedig y diffiniad dilynol o ddysgu a gofynnir iddynt pryd oedd y tro diwethaf iddynt gymryd rhan, yn ogystal â pha mor debygol yw hi y byddant yn cymryd rhan mewn dysgu yn ystod y tair blynedd nesaf:

'Gall dysgu olygu ymarfer, astudio neu ddarllen am rywbeth. Gall hefyd olygu cael eich addysgu, cyfarwyddo neu hyfforddi. Mae hyn fel y gallwch ddatblygu sgiliau, gwybodaeth, galluoedd neu ddealltwriaeth o rywbeth. Gall dysgu hefyd gael ei alw yn addysg neu hyfforddiant. Gallwch ei wneud yn rheolaidd (bob dydd neu fis) neu gallwch ei wneud am gyfnod byr. Gall fod yn llawn-amser neu ran-amser, ei wneud gartref, yn y gwaith neu mewn lle arall fel coleg. Nid yw'n rhaid i ddysgu arwain at gymhwyster. Mae gennym ddiddordeb mewn unrhyw ddysgu a wnaethoch, p'un ai a gafodd ei orffen ai peidio'.

Ymchwiliodd Arolwg Cyfranogiad Oedolion mewn Dysgu 2020 brofiadau pobl o ddysgu ers dechrau'r pandemig Coronafeirws a'r cyfnod clo cenedlaethol a gyflwynwyd ym mis Mawrth 2020. Roedd hyn yn cynnwys pam y gwnaeth pobl ddewis dysgu yn y cyfnod clo, sut y gwnaethant ddysgu, y rhwystrau a gawsant, a'u bwriadau i barhau i ddysgu yn y dyfodol.

Cyn 2020, cynhaliwyd yr arolwg wyneb i wyneb. Oherwydd pandemig Covid-19, cynhaliwyd arolwg 2020 dros y ffôn. Felly ni fedrir cymharu canlyniadau'r arolwg yn uniongyrchol gyda blynyddoedd blaenorol.

[1] Gweler https://learningandwork.org.uk/what-we-do/lifelong-learning/adult-participation-in-learning-survey/. Cynhaliwyd arolygon yn flynyddol o 1996 heblaw mewn tair blynedd: 1997, 1998 a 2016.
[2] Aldridge, F., Jones, E. a Southgate, D. (2020) Learning Through Lockdown. Sefydliad Dysgu a Gwaith

Canfyddiadau ymchwil

Mae'r bennod hon yn ymchwilio canfyddiadau pump cyfweliad a gynhaliwyd gydag oedolion sy'n dysgu yng Nghymru. Mae'n disgrifio eu gweithgareddau dysgu, eu cymhellion ar gyfer dysgu ers dechrau'r pandemig; y manteision a'r deilliannau y disgwylient eu cael o'r dysgu; heriau dysgu ar-lein; yr hyn a hoffent neu na hoffent am ddysgu ar-lein; eu hawgrymiadau am gefnogi oedolion eraill i fynd ati i ddysgu ar-lein; a'u bwriadau ar gyfer dysgu yn y dyfodol.

Am y dysgu

Roedd pawb a gyfwelwyd wedi cwblhau eu dysgu ar-lein ac o gartref, ac roedd yr holl ddysgu yn gysylltiedig ag ennill cymwysterau neu sgiliau ar gyfer gwaith. Roedd rhai oedolion wedi dechrau eu dysgu cyn cyfnod clo cyntaf y Coronafeirws ym mis Mawrth 2020, ac eraill wedi dechrau wedyn.

Fel arfer roedd gweithgareddau dysgu yn cael eu cynnal am fisoedd neu'n barhaus, ac roedd y rhan fwyaf o bobl yn dysgu fwy nag unwaith yr wythnos. Cafodd y rhan fwyaf o ddysgu ei ddarparu gan sefydliadau fel colegau a phrifysgolion, gyda dim ond un unigolyn yn dweud eu bod wedi dysgu drwy sefydliad cymunedol a Future Learn.

Newid i ddarpariaeth ar-lein

Dywedodd cyfweleion a oedd yn dysgu cyn y cyfnod clo y bu'n rhaid symud eu gweithgareddau dysgu ar-lein oherwydd y cyfyngiadau. Ar y llaw arall, roedd y rhai a ddechreuodd ddysgu ar ôl y cyfnod clo eisoes yn gwybod y byddent yn gwneud eu cyrsiau ar-lein. Roedd llwyfannau dysgu ar-lein yn cynnwys Microsoft Teams, Zoom a llwyfan Google.

Lle'r oedd y gweithgareddau dysgu wedi symud i fod ar-lein, dywedodd rhai o'r cyfweleion fod hyn wedi effeithio ar eu gallu i ddysgu'n effeithlon.

> *'Mae [dysgu ar-lein] wedi newid y deinameg. Mae wedi mynd â ni allan o amgylchedd dysgu a nawr yn ein rhoi mewn amgylchedd heb fod yn dysgu a rydym yn dal i fod yn dysgu. Rwy'n teimlo fod y newid hwnnw, ynddo ei hun, wedi cael effeithiau'.*

Fodd bynnag, teimlai un unigolyn fod y newid i ddarpariaeth ar-lein wedi effeithio llai arnynt oherwydd fod eu mynediad i ddeunyddiau dysgu wedi aros yr un fath, a'u bod wedi derbyn yr holl offer angenrheidiol i fedru dysgu ar-lein, yn cynnwys pecyn cymorth anabledd.

Nododd rhai oedolion fod y tiwtoriaid weithiau'n cael problemau technegol neu'n cael trafferth addasu i addysgu ar-lein ac, yn ei dro, roedd hyn wedi effeithio ar ansawdd eu dysgu.

> *'… oherwydd ei fod [dysgu ar-lein] yn newydd i bawb, oherwydd ei fod yn anghyfarwydd ... fel tiwtor, nid ydyn nhw'n mynd i fedru darparu'n union yr un ansawdd o ddysgu ag y byddent wedi ei gael yn flaenorol.'*

Profiad blaenorol o ddysgu fel oedolyn

Roedd gan rhai gyfweleion brofiad blaenorol o ddysgu fel oedolyn ond i unigolion iau, hwn oedd eu profiad cyntaf o ddysgu ers addysg llawn-amser.

Dywedodd y rhan fwyaf o oedolion nad oedd eu dysgu blaenorol wedi dylanwadu ar eu penderfyniad i fynd ati i ddysgu yn ystod cyfnod clo. Mae hyn oherwydd y gallai eu dysgu blaenorol fod wedi bod wyneb-i-wyneb neu gyda diben gwahanol. Fodd bynnag, esboniodd un a gyfwelwyd eu bod wedi mwynhau eu profiad blaenorol o ddysgu ac ers hynny wedi bod eisiau dal ati i ddysgu.

> *'Roedd fy mhrofiad blaenorol o ddysgu yn dda iawn bryd hynny ... ond roedd gen i bob amser y teimlad hwn o astudio, fel awydd i astudio ymhellach.'*

Gofynnwyd i gyfweleion hefyd am unrhyw rwystrau y gallent fod wedi eu cael wrth ddysgu'n flaenorol. Dywedodd rhai eu bod yn flaenorol wedi gwrthod rhai cyfleoedd dysgu oherwydd ymrwymiadau gofal plant neu waith.

Cymhellion am ddysgu yn y cyfnod clo

Ym mhob achos, roedd dysgwyr yn bwriadu naill ai i ennill cymwysterau neu wella eu sgiliau proffesiynol. Pan ofynnwyd iddynt am eu cymhellion at ddysgu yn ystod cyfnod clo, roedd cyfweleion yn aml yn cysylltu hyn gyda'u cyfleoedd cyflogaeth posibl.

> *'Roeddwn i'n meddwl y byddwn yn defnyddio'r cyfle i ennill tystysgrif yn Saesneg, yna y gallwn gael swydd.'*

I un unigolyn, roedd eu cyflogwr wedi gwneud y dysgu yn orfodol gan na fedrent gwblhau eu harferion gwaith arferol oherwydd cyfyngiadau Coronafeirws.

Gofynnwyd i ddysgwyr hefyd am eu sbardun ar gyfer dysgu a pham eu bod wedi penderfynu mynd ati i ddysgu yn awr. Roedd eu rhesymau am hyn yn amrywio'n sylweddol, er enghraifft, roedd un unigolyn wedi dioddef anaf ymennydd yn ddiweddar ac roedd un arall yn ffoadur oedd yn trafod eu hopsiynau gyda hyfforddydd gwaith.

> *'Yn sylfaenol, rwyf yn dal yn ffoadur, nid wyf wedi cael fy ninasyddiaeth lawn eto. Pan ddeuais i'r wlad yma ... roeddwn yn gobeithio y byddwn yn cael swydd yn rhwydd iawn yma gan fod gennyf dros dair blynedd o brofiad mewn adnoddau dynol. Ond ar ôl i mi ddod yma a dechrau edrych am swydd, roeddwn yn aflwyddiannus ac fe wnaeth fy hyfforddydd gwaith yn y Ganolfan Gwaith fy annog [i fynd ati i ddysgu]."*

Y manteision a ddisgwylir o ddysgu

Roedd oedolion yn disgwyl ennill llawer o wahanol fanteision a deilliannau o'u gweithgareddau dysgu. Gobeithiai'r rhan fwyaf o gyfweleion y byddai ennill cymwysterau neu ddilyn gweithgareddau datblygu proffesiynol yn hybu eu bywyd gwaith neu'n arwain at gyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol.

Roedd rhai oedolion hefyd yn disgwyl cael mwy o fanteision personol, er enghraifft medru profi y gallent gyflawni eu deilliannau, er iddynt wynebu rhwystrau yn flaenorol.

> *'Gallaf ddangos ei bod yn bosibl symud ymlaen ar ôl dioddef anaf mor ddifrifol.'*

> *‘Fe benderfynais fynd ati i ddysgu Saesneg a mathemateg oherwydd na chefais y graddau roeddwn ei angen pan gefais fy machgen bach yn 15 oed.’.’*

Dywedodd rhai dysgwyr eu bod eisoes wedi profi y manteision y disgwylient eu cael o ddysgu. Dywedodd un dysgwr, oedd yn cwblhau cyrsiau hyfforddiant ar-lein ar gyfer eu swydd bresennol mewn gofal cymdeithasol, eu bod wedi defnyddio eu dysgu a sgiliau yn eu gwaith.

Heriau

Cafodd y dysgwyr rhai anawsterau technegol cyffredin wrth ddefnyddio darpariaeth ar-lein. Roedd rhai unigolion yn ei chael yn anodd defnyddio eu llwyfan dysgu ar-lein a’i gymwysiadau cysylltiedig, er enghraifft, dim yn gwybod sut i gael mynediad i wers drwy eu calendr ar-lein. Yn ychwanegol, nid oedd gan rai dysgwyr fynediad i’r rhyngrwyd neu liniadur nes iddynt gael y pethau hyn yn nes ymlaen yn eu cyrsiau. Fodd bynnag, dywedodd y rhan fwyaf o oedolion fod eu profiadau gyda thechnoleg wedi gwella wrth i amser fynd heibio.

> *‘Nid wyf mor gyfarwydd gyda thechnoleg ac y dylwn fod efallai ... doeddwn i erioed wedi defnyddio’r pethau hyn o’r blaen. Roedd yn heriol iawn ceisio canfod sut i’w ddefnyddio.’*

> *'Roeddwn yn ei chael yn anodd [defnyddio Microsoft Teams] yn y dechrau ond rydych chi’n gwella wrth ddod i arfer.’*

Soniodd oedolion hefyd am heriau eraill fel byw gydag anabledd, cael adferiad o anaf ymennydd a phrofi problemau tai pan oeddent ar eu cwrs.

Gallodd y rhan fwyaf o gyfweleion gael mynediad i gymorth i fynd i’r afael â’r heriau hyn. Roedd rhai dysgwyr yn cael sesiynau rheolaidd o gymorth, er enghraifft, sesiynau cwnsela wythnosol, ac esboniodd eraill fod eu tiwtoriaid yn rhoi cymorth pan oeddent angen. Soniodd nifer fach fod eu ffrindiau, teulu neu gydweithwyr hefyd wedi eu helpu gyda’r dechnoleg sydd eu hangen ar gyfer dysgu ar-lein.

> *‘Byddai’r tiwtoriaid yno bob amser pan oeddwn eu hangen, neu byddent yn newid gwers arall i mi ymuno â’r wers honno, felly roedd fel petai gen i bob amser rywun y gallwn siarad gyda nhw am yr holl broblemau oedd gennyf.’*

> *‘Roedd gan un o fy nhiwtoriaid wers rydd ac fe ddangosodd i mi gam wrth gam sut i ddefnyddio Teams, sut i wneud Zoom a sut i uno fy nghyfeiriad e-bost personol gyda fy nghyfeiriad e-bost arall fel mod i’n cael negeseuon e-bost drwy’r ddau’.*

Profiadau o ddysgu ar-lein

Roedd rhai dysgwyr eisoes yn gyfarwydd gyda dysgu ar-lein neu wedi datblygu eu sgiliau TG yn flaenorol. Esboniodd yr unigolion hyn y teimlent yn hyderus yn eu gallu i newid i ddarpariaeth ar-lein ac wedi cael y profiad yn gymharol syml. Fodd bynnag, dywedodd llawer o'r rhai oedd yn llai cyfarwydd gyda dysgu ar-lein eu bod yn teimlo'n bryderus neu nerfus cyn rhoi cynnig arno.

> *'[Cyn dechrau dysgu ar-lein] roeddwn yn bryderus iawn. Yn fwy felly rhag ofn colli unrhyw beth. Os nad ydych mewn gwirionedd yn hyddysg gyda chyfrifiaduron, rydych yn ofnus rhag ofn y byddwch yn gwneud rhywbeth neu'n gwybod eich bod yn mynd i golli rhywbeth, a sut i'w gael yn ôl.'*

> *'Roeddwn ychydig yn nerfus mewn gwirionedd oherwydd, chi'n gwybod, technoleg yw hyn. Roedd gen i ofn beth fyddai'n digwydd os na fyddwn yn mynd ar-lein yn iawn a'r athro yn ddig ... y myfyrwyr yn gwneud hwyl am fy mhen am beidio gwybod sut i fynd ar-lein. Roedd yn rhywbeth nad oeddwn yn teimlo'n gysurus amdano, oherwydd nad oeddwn wedi ei wneud o'r blaen.'*

Yr hyn a hoffai dysgwyr am ddysgu ar-lein

Disgrifiodd rhai dysgwyr ddysgu ar-lein fel bod yn **hyblyg, hygyrch a chyfleus.** Er enghraifft, roedd rhai yn hoffi y gallent orffen eu dysgu o gysur eu cartrefi eu hunain, a bod hyn yn **golygu na fyddent yn gorfod treulio amser yn teithio.** Roedd rhai hefyd yn hoffi y gallent **orffen eu dysgu ar adeg cyfleus iddynt,** a bod hyn yn golygu y gallent barhau i roi blaenoriaeth i ymrwymiadau eraill tebyg i ofal plant. Dywedodd un unigolyn y gallent hefyd ymuno â'u gwersi gyda'u plant yn bresennol ar y sgrin.

> *'Mae'n well gen i ddysgu ar-lein na mynd i rywle, mae'n rhwyddach. Mae'n well bod o amgylch adre hefyd. Mae'n bendant yn gyfleus.'*

Yn ychwanegol, roedd rhai dysgwyr yn hoffi y gallent **ofyn eu cwestiynau yn fwy cyfrinachol i'w tiwtor** pan yn dysgu ar-lein. Fe wnaethant esbonio y gallent fod wedi teimlo'n chwithig gofyn eu cwestiynau pe byddai'r dysgu yn wyneb yn wyneb neu ei chael yn anodd siarad dros bobl eraill.

Roedd dysgu ar-lein hefyd yn rhoi **cyfle i oedolion i gysylltu a rhyngweithio gydag eraill** mewn cyfnod pan oedd cymdeithasu wyneb-i-wyneb wedi ei gyfyngu fel arall. Roedd un unigolyn yn hoffi'n arbennig fod dysgu ar-lein yn golygu y galliai gwrdd â phobl o bob rhan o'r byd.

Nododd rhai cyfweleion hefyd, os oedd eu dysgu yn wyneb-i-wyneb, na fyddent wedyn wedi medru dysgu sut i ddefnyddio **gwahanol gymwysiadau ar-lein.** Gall y cymwysiadau hyn hefyd eu helpu yn y dyfodol; er enghraifft, dywedodd un unigolyn a wnaeth Lefel 3 mewn Addysgu a Hyfforddiant y gall yn awr gynllunio a chyflwyno gwersi ar-lein.

Yr hyn na hoffai dysgwyr am ddysgu ar-lein

Dywedodd rhai dysgwyr fod dysgu ar-lein yn **gostwng y cyfle ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol, yn ogystal â gweithgareddau corfforol neu ymarferol,** a allai fod yn hanfodol i swyddi mewn rhai sectorau. Teimlai unigolion weithiau na fedrent siarad yn rhydd neu'n anffurfiol gyda dysgwyr eraill neu diwtoriaid, ac y gallai hyn yn aml leihau cyfleoedd dysgu.

> *'Pe byddwn mewn dosbarth, byddai'n bendant fwy o sgwrs, mwy o siarad. A roedd hyd yn oed yr athro yn dweud pe bydden ni wyneb i wyneb y byddwn wedi edrych sut oeddech yn gwneud ... neu faint o newidiadau y gallwch ddod â nhw, neu ba rannau yr ydych wedi eu gwneud yn gywir neu anghywir.'*

Soniodd rhai dysgwyr eu bod hefyd yn ei **chael yn anodd gofyn cwestiynau yn gyflym ac yn rhwydd i egluro eu dysgu.** Roedd hyn naill ai oherwydd fod dysgwyr eraill yn siarad dros eu gilydd neu'n gorlenwi y blwch sgwrsio neu oherwydd y gallent laesu dwylo drwy dewi eu dyfais a throi eu camera i ffwrdd yn ystod gwersi.

> *'Weithiau gydag ar-lein rydych yn troi eich fideo i ffwrdd ac yn tewi eich hunan a gallwch fynd a gwneud gweddill y gwaith rydych eisiau ei wneud. Felly nid ydych yn talu sylw i unrhyw ran o'r wers. Ond byddwch yn talu mwy o sylw os ydych wyneb i wyneb. Byddwch yn canolbwyntio mwy.'*

Fel y nodwyd uchod, dywedodd rhai oedolion fod dysgu ar-lein wedi effeithio ar eu gallu i ddysgu'n effeithlon gan **nad yw'n rhoi'r un amgylchedd dysgu â darpariaeth wyneb i wyneb.** Dywedodd rhai hefyd y gall dysgu ar-lein fod yn **brin o strwythur a threfn.**

> *'Yr amgylchedd yw'r brif broblem. Ein hamgylchedd unigol ein hunain y gwnaethom naill ai ei greu neu yr ydym yn gorfod bod ynddo ... Ni all darparwyr dysgu reoli amgylchedd cartrefi pobl. Bydd methu rheoli'r amgylchedd dysgu felly yn effeithio ar yr addysgu a'r dysgu a all ddigwydd ynddo.'*

> *'Mae darpariaeth wyneb i wyneb yn system addysg go iawn eich bod yn gwybod pa amser y dylech fod yn y dosbarth, am faint o'r gloch y bydd yr egwyl, faint o'r gloch y dylech fod yn ôl gartref, beth yw'r tasgau.'*

Cefnogi oedolion i ddysgu ar-lein

Er y cafodd cyfweleion amrywiaeth o brofiadau tra'n dysgu ar-lein, dywedodd y rhan fwyaf y byddent yn annog oedolion eraill i roi cynnig arni. Gwnaeth cyfweleion yr awgrymiadau dilynol ar gyfer cefnogi oedolion arall i fynd ati i ddysgu ar-lein:

- Dylai oedolion gael eu cefnogi i ddatblygu'r lefel briodol o sgiliau TG, yn neilltuol yng nghyswllt llwyfannau dysgu ar-lein a gwahanol brosesau o gyflwyno aseiniadau annibynnol. Awgrymwyd y gallai oedolion ddod yn gyfarwydd gyda'r dechnoleg ymlaen llaw ac y gallai darparwyr gyflenwi llawlyfr cam-wrth-gam ar sut i ddefnyddio'r cymwysiadau perthnasol.

- Mae oedolion angen help i gael mynediad i'r adnoddau angenrheidiol, er enghraifft liniadur sy'n gweithio a chysylltiad cadarn gyda'r rhyngrwyd.
- Byddai rhoi sylw i gyfleustra dysgu ar-lein, gan helpu i oresgyn rhwystrau tebyg i ofal plant, yn annog oedolion eraill.
- Gall tanlinellu manteision dysgu yn ystod pandemig hefyd ysbrydoli oedolion eraill, yn arbennig os ydynt yn gorfod ailhyfforddi.

Bwriadau i ddysgu yn y dyfodol

Dywedodd pob oedolyn y byddent yn parhau i ddysgu yn y dyfodol ac mae rhai eisoes wedi trefnu gweithgareddau dysgu. Er fod rhai oedolion eisiau i'w dysgu yn y dyfodol ddigwydd ar-lein, dywedodd eraill y byddai'n well ganddynt i hyn fod wyneb i wyneb.

Roedd y cymhelliant mwyaf cyffredin dros i'r cyfweleion fod eisiau parhau i ddysgu yn y dyfodol yn ymwneud â'r cymhellion a nodwyd ganddynt yn flaenorol; ategodd llawer eu bod eisiau gwella eu bywydau gwaith neu sicrhau cyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol.

'Rwy'n bwriadu parhau i ddysgu er mwyn cyflawni fy uchelgais yn y dyfodol.'

Er bod yr holl gyfweleion yn bwriadu cymryd rhan mewn rhyw fath o ddysgu yn y dyfodol, gofynnwyd iddynt hefyd os gallai rhywbeth eu hatal rhag gwneud hynny. Dywedodd rhai y gallent ei chael yn anodd canfod yr amser i wneud mwy o ddysgu yn y dyfodol, yn arbennig os oedd ganddynt ymrwymiadau eraill tebyg i ofal plant neu gyflogaeth lawn-amser.

Casgliad

Nod yr ymchwil ansoddol graddfa-fach yma oedd deall yn well beth oedd profiadau oedolion o ddysgu ar-lein neu o bell yn ystod cyfnodau clo Covid-19. Gan adlewyrchu'r cyfyngiadau sydd ar waith, roedd y rhan fwyaf o'r dysgwyr a gyfwelwyd yn dysgu yn eu cartrefi eu hunain. Fe wnaethant gymryd rhan mewn cyrsiau anffurfiol, gan weithio at gymwysterau ar gyfer datblygu proffesiynol - rhai ohonynt wedi dechrau cyn y cyfnod clo cyntaf ym mis Mawrth 2020. Roedd y rhan fwyaf o gyfweleion yn cael mynediad i ddysgu drwy brifysgolion neu golegau.

Er fod gan rai o'r oedolion a gyfwelwyd brofiad o ddysgu fel oedolyn cyn cyfnod clo, roedd dysgu ar-lein yn newydd i rai. Dywedodd y dysgwyr hyn eu bod wedi teimlo'n bryderus a nerfus i ddechrau am ddysgu ar-lein ond bod eu hyder wedi tyfu dros gyfnod, ac iddynt gael profiadau cadarnhaol yn gyffredinol.

Roedd manteision dysgu ar-lein a ddynodwyd gan gyfweleion yn cynnwys:

- Hygyrchedd a chyfleuster dysgu ar-lein, oedd yn eu galluogi i ddysgu yn eu cartrefi eu hunain ac arbed amser drwy beidio gorfod teithio
- Hyblygrwydd i ddysgu o amgylch ymrwymiadau eraill, tebyg i gyfrifoldebau gofalu
- Medru gofyn i diwtoriaid yn fwy cyfrinachol am help nag y byddent wedi medru gwneud mewn ystafell ddosbarth
- Cysylltu gydag ystod ehangach o ddysgwyr nag y byddent wedi gallu gwneud fel arall, yn cynnwys yn rhyngwladol, ar adeg pan nad oedd rhyngweithio wyneb-i-wyneb yn bosibl neu'n gyfyngedig.
- Cael mynediad i a dysgu defnyddio cymwysiadau ar-lein.

Fodd bynnag, roedd dysgu ar-lein yn dod gyda rhai heriau hefyd. Roedd y rhain yn ymwneud yn bennaf â thechnoleg, cysylltiad rhyngrwy, sgiliau digidol a hyder. Roedd rhai dysgwyr yn colli'r cyfle am gysylltiad cymdeithasol gyda dysgwyr eraill a chysylltiad anffurfiol gyda'u tiwtoriaid. roedd rhai yn cael cyfathrebu ar-lein yn heriol, er enghraifft, reoli sgwrs ar-lein neu fedru gofyn cwestiynau yn gyflym. Roedd eraill yn ei chael yn anodd cadw ffocws a chanolbwyntio yn ystod sesiynau ar-lein.

Mae'r canfyddiadau ymchwil yn amlygu'r ystyriaethau dilynol ar gyfer cyflenwi dysgu ar-lein:

- Mae angen i farchnata cyrsiau ar-lein roi sylw i'r pryderon a all fod gan oedolion am ddysgu ar-lein, er enghraifft ei gwneud yn glir fod cyrsiau yn hygyrch i bobl heb brofiad o ddysgu ar-lein, yn cynnwys gwybodaeth am unrhyw gymorth technegol a roddir, gan ddefnyddio dysgwyr blaenorol fel modelau rôl.

- Fel ffynhonnell allweddol o gymorth i ddygwyr, dylai tiwtoriaid gael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau a hyder digidol. Gallai hyn hefyd helpu i hybu ansawdd cynnwys a chyflwyno cwrs.

- Dylai tiwtoriaid ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau dysgu, yn cynnwys fideos, darllen, sleidiau PowerPoint, cwisiau ac yn y blaen i gadw diddordeb a ffocws dysgwyr.

- Dylai tiwtoriaid greu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol rhwng dysgwyr, enghraiffft grwpiau trafod bach a/neu amser ar gyfer trafodaeth anffurfiol ar ddechrau neu diwedd sesiynau.

- Dylai tiwtoriaid ystyried sut y rhoddant gymorth i roi cyfleoedd i ddysgwyr i ofyn cwestiynau a gwirio eu dealltwriaeth. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, roi cymorth un-i-un a/neu osod rheolau safonol am os/sut y gall dysgwyr ymyrryd ar gwestiynau, defnyddio sgwrs ar-lein, tewi, p'un a ddylai camerâu fod ymlaen ac yn y blaen.